Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

18 Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad aelodaeth yr Is-bwyllgor |
| AWDUR: | Iwan Evans, Swyddog Monitro |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyo penodi'r Aelodau cyfetholedig ar yr is-bwyllgorau cynllunio a thrafnidiaeth strategol.

1.2 Nodi aelodaeth yr Is-bwyllgorau fel a nodir yn y Tablau isod.

## 2. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

2.1 Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) gyfrifoldeb statudol dros ddatblygu polisi cynllunio a thrafnidiaeth strategol ar sail ranbarthol mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol (ac ar gyfer cynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r CBC wedi penderfynu sefydlu dau is-bwyllgor i gyflawni'r swyddogaeth hon, gan adrodd materion a gedwir yn ôl i'r CBC sy'n cynnwys mabwysiadu ac adolygu unrhyw gynllun neu bolisi.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Yn 2022 cymeradwyodd y CBC sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ac Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, ei aelodaeth a'i hawliau pleidleisio. Cymeradwyodd y CBC hefyd Gylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog yr Is-bwyllgorau ynghyd â manylion y broses ffurfiol ar gyfer cyfethol.

3.2 Mae'r CBC wedi penderfynu ffurfio cyfansoddiad ac aelodaeth ei is-bwyllgorau drwy gyfethol yr aelodau hynny sy'n dal y portffolio arweiniol ar gyfer trafnidiaeth (6 aelod â phleidlais) a chynllunio (7 aelod â phleidlais, gan gynnwys cynrychiolydd y Parc Cenedlaethol). Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r aelodau hynny sydd i'w cyfethol ar y ddau is-bwyllgor yn dilyn newidiadau i ddeiliaid portffolio ar ôl cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yr Awdurdodau hynny sy'n ffurfio aelodaeth y CBC.

3.3 Mae'n ofynnol i'r Aelodau arweiniol hynny (ac aelod enwebedig y Parc Cenedlaethol) a nodwyd i'w cyfethol lofnodi Cytundeb Cyfethol sy'n gosod y telerau a'r swyddogaethau mewn perthynas â phob is-bwyllgor. Mae'r broses bresennol o gyfethol yn golygu nad oes lle i ddirprwyon fynychu yn absenoldeb yr aelod cyfetholedig (oni bai bod aelod yn rhan o drefniant rhannu swydd).

3.4 Yr argymhelliad yw penodi'r aelodau a ganlyn:

- Y Cynghorydd Gary Pritchard i gymryd lle'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Ynys Môn) ar yr is-bwyllgor trafnidiaeth strategol

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

- Y Cynghorydd Richard Jones i gymryd lle'r Cynghorydd Christopher Bithell (Sir y Fflint) ar yr is-bwyllgor cynllunio strategol

| **Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sir** |
| Y Cyng. Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| **CADEIRYDD**<br>Y Cyng. Goronwy Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **IS-GADEIRYDD**<br>Y Cyng. David A. Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| ~~**IS-GADEIRYDD**~~<br>~~Y Cyng. Dafydd R. Thomas~~<br><br>Y Cyng. Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Barry Mellor | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Glyn Banks | Cyngor Sir y Fflint |

| **Is-bwyllgor Cynllunio Strategol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sir** |
| Y Cyng. Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Chris Cater | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **IS-GADEIRYDD**<br>Y Cyng. Hugh Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **CADEIRYDD**<br>Y Cyng. Nicola Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Alan James | Cyngor Sir Ddinbych |
| ~~Y Cyng. Christopher Bithell~~<br><br>Y Cyng. Richard Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Edgar Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

ATODIADAU:

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.